# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Mai 2013** |
| Amser: | **08:30 - 08:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Croesawodd y Llywydd Elin Jones i'r cyfarfod, fel Rheolwr Busnes newydd Plaid Cymru.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Nododd y Pwyllgor fusnes yr wythnos hon.

Cynhelir y cyfnod pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol ar y cynnig a’r gwelliannau i’r ddadl ar Araith y Frenhines yn cael eu cynnal ar ddiwedd y ddadl ddydd Mercher. Byddai unrhyw bleidleisiau eraill yn digwydd cyn y Ddadl Fer.

3(ii) Amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad am y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu’r eitem a ganlyn o fusnes:

**Dydd Mercher 19 Mehefin 2013**

- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Aelod ynghylch Meysydd Carafanau Gwyliau (Cymru) (Darren Millar) (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Balotau Biliau Aelodau (Rh.S. 26.89)

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur yn amlinellu’r opsiynau ar gyfer newid y Rheolau Sefydlog mewn cysylltiad â’r broses o gynnal balotau ar gyfer Biliau Aelodau, gan gynnwys y ddarpariaeth benodol a nodir yn Rheol Sefydlog 26.89 sy’n caniatau i Aelodau gymryd rhan yn y balot fwy nag unwaith mewn unrhyw dymor Cynulliad.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â’u grwpiau ynghylch y cynigion a’r newidiadau i’r Rheolau Sefydlog a chytunwyd y byddant yn cyflwyno adroddiad ar yr opsiynau dewisol yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 11 Mehefin 2013.

## 5 Rheolau Sefydlog

5(i) Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Sancsiynau

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur ar yr argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei Adroddiad ar Sancsiynau a gyhoeddodd ar 15 Mai 2013 i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ag argymhelliad y Pwyllgor Safonau y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog a mynegwyd mai eu dull dewisol fyddai rhoi pŵer i'r Pwyllgor Safonau argymell sancsiynau mewn cysylltaid â materion a restrir yn Rheol Sefydlog 22.2(i), yn hytrach na mewn cysylltiad â diffyg cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn unig, er mwyn rhoi cymaint o ddisgresiwn â phosibl i'r Pwyllgor wrth argymell sancsiynau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Safonau ar y mater hwn.

**UNRHYW FUSNES ARALL**

**Araith y Frenhines 2013**

Tynnodd Weinidog Busnes y Llywodraeth sylw'r Rheolwyr Busnes at y llythyr a anfonwyd at y Llywydd ynghylch goblygiadau arfaethedig rhaglen ddeddfwriaethol 2013-14 Llywodraeth y DU ar fusnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru.